# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022

10:00 – 11:30

Zoom

| **Aelodau presennol:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd | Grŵp Llandrillo Menai |
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) | Cyngor Gwynedd |
| Dylan Owen (DO) | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. Llinos Medi Huws (LlMH) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhys Hughes (RhH) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Euros Jones (EJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Emyr Williams (EW) | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Andrew Edwards (AE) | Prifysgol Bangor |
| Sarah Andrews (SA) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Lyndsey Campbell-Williams (LC-W) | Medrwn Môn |
| Wayne Jones (WJ) | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| **Yn mynychu:** | |
|---|---|
| Sandra Thomas (ST) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Gwenan Pritchard (GP) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Dewi Wyn Jones (DWJ) | Cyngor Gwynedd |

| **Ymddiheuriadau:** | |
|---|---|
| Ffrancon Williams (FFW) | Adra |
| Andy Jones (AJ) | Gwasanaeth Prawf |
| Dylan Williams (DW) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Neil Thomas (NT) | Heddlu Gogledd Cymru |

| | |
|---|---|
| Geraint Owen (GO) | Cyngor Gwynedd |
| Dafydd Gibbard (DG) | Cyngor Gwynedd |
| Shan Morris (ShM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Glyn Jones (GJ) | Llywodraeth Cymru |
| Andy Dunbobbin | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Jo Whitehead | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

**Pwyntiau Gweithredu**

1. Gofynnwyd i bawb ymgyfarwyddo gyda'r cylch gorchwyl. Tîm Cefnogi BGC i gylchredeg copi gyda'r cofnodion.– **Pawb / Tîm Cefnogi BGC**

2. Angen ychwanegu pwyntiau gweithredu 8 a 9 fel eitemau i'r cyfarfod nesaf - **Tîm Cefnogi BGC**:
   - ShM i rannu'r data Gwasanaeth Tân ac Achub ynglŷn â'r risg o foddi oherwydd sgil effeithiau newid hinsawdd
   - Cyfarfod nesaf i gynnwys trafodaeth am y Gronfa Ffyniant a Rennir (SPF)

3. Angen i'r Tîm Cefnogi BGC rhoi sylw i eitem 6 o'r pwyntiau gweithredu: Edrych ar flaenoriaethau / amcanion sefydliadol er mwyn creu 'matrix' i weld lle mae yna gysondeb rhwng y sefydliadau a lle fyddai'n gwneud synnwyr i gyd-weithio. - **Tîm Cefnogi BGC**

4. Nodwyd cywiriad i'r rhestr ymddiheuriadau a cytunwyd i ychwanegu Llinos Medi Huws. - **Tîm Cefnogi BGC**

5. Polisi Cymunedau Llywodraeth Cymru - Tîm Cefnogol BGC i drefnu gwybodaeth i'w rannu yn dilyn cyfarfod pellach sydd wedi ei drefnu gyda Llywodraeth Cymru mis Ionawr. - **Tîm Cefnogi BGC**

6. Cyfryngau Cymdeithasol - Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd rannu y negeseuon perthnasol am y cynllun llesiant drafft. Nodwyd mai @LlesiantGaM yw'r cyfeiriad Twitter. – **Pawb**

7. Dathlu'r ddeddf/"Call to Action – rhannu'r e-bost - **Tîm Cefnogi BGC**

8. Llythyru'r Comisiynydd newydd gan estyn gwahoddiad iddynt i gyfarfod y Bwrdd yn ystod 2023 - **Tîm Cefnogi BGC**

9. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2021-22 - Gofynnwyd am sylwadau erbyn diwedd yr wythnos – **Pawb**

10. Ymgynghoriad Cynllun Llesiant Drafft - Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd roi gwybod os bydd unrhyw grwpiau targed penodol hoffent i'r Tîm Cefnogol gysylltu â hwy – **Pawb**

11. Dywedodd EW ei fod eisiau gweld y 3 categori aelodaeth wedi ei egluro yn well, gan ei fod yn annelwig i ba gategori mae'r Parc yn perthyn - **Tîm Cefnogi BGC**

12. Siarter Teithio Llesol Cymru - Tîm Cefnogol BGC i godi'r mater gyda'r Llywodraeth yn y cyfarfod Polisi Cymunedau - **Tîm Cefnogi BGC**

13. Bwrdd i adrodd yn ôl i'r Bwrdd Iechyd gyda cynnydd yn achlysurol. Gofynnodd SA i bob sefydliad gadw cofnod o'r blaenoriaethau mae nhw yn ei ddewis ac yn adrodd ar sefyllfa Gogledd Cymru neu Gwynedd / Môn i'r Bwrdd. Cytunwyd i'r Tîm Cefnogol BGC baratoi templed i Aelodau'r Bwrdd allu adrodd yn ôl, Aled Hughes i rannu templed i addasu. - **Aled Hughes / Tîm Cefnogi BGC**

14. Cytunwyd i drafod aelodaeth is-grwpiau yn y cyfarfod nesaf. - **Tîm Cefnogi BGC**

15. Prosiect Cynllunio Gweithlu Dwyieithog – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. - **Tîm Cefnogi BGC**

16. FfJ i ddarparu papur yn amlinellu llwyddiant yr enghraifft lle gwelwyd nifer y bobl yn dychwelyd adref o fewn terfynau amser yn haneru yn ddiweddar. **- FfJ**

**Cofnod o'r drafodaeth**

| Eitem | Nodiadau | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Croesawyd yr holl fynychwyr i'r cyfarfod a derbyniwyd yr ymddiheuriadau a nodir uchod. | | |
| 2 | **Cylch Gorchwyl**<br>Atgoffwyd mynychwyr o'r cylch gorchwyl a'r angen i sicrhau cworwm fel bod modd parhau gyda chyfarfod. Gofynnwyd i bawb ymgyfarwyddo gyda'r cylch gorchwyl. Tîm Cefnogi BGC i gylchredeg copi gyda'r cofnodion. | **Pawb**<br>**Tîm Cefnogi BGC** | <br>16/3/23 |
| 3 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br>**15/06/22** - Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth.<br>Nodwyd bod angen ychwanegu pwyntiau gweithredu 8 a 9 fel eitemau i'r cyfarfod nesaf:<br>• ShM i rannu'r data Gwasanaeth Tân ac Achub ynglŷn â'r risg o foddi oherwydd sgil effeithiau newid hinsawdd<br>• Cyfarfod nesaf i gynnwys trafodaeth am y Gronfa Ffyniant a Rennir (SPF)<br>Ychwanegwyd bod angen i'r Tîm Cefnogi BGC rhoi sylw i eitem 6 o'r pwyntiau gweithredu: Edrych ar flaenoriaethau / amcanion sefydliadol er mwyn creu 'matrix' i weld lle mae yna gysondeb rhwng y sefydliadau a lle fyddai'n gwneud synnwyr i gyd-weithio.<br>**24/10/22** - Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth. Nodwyd cywiriad i'r rhestr ymddiheuriadau a cytunwyd i ychwanegu Llinos Medi Huws. | **Tîm Cefnogi BGC**<br>**Tîm Cefnogi BGC**<br>**Tîm Cefnogi BGC** | 16/3/23<br>16/3/23<br>16/3/23 |
| 4 | **Cyhoeddiadau**<br><u>Polisi Cymunedau, Llywodraeth Cymru</u> – Nodwyd bod AJG wedi cyfarfod gyda Swyddogion o dîm Polisi Cymunedau Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Maent yn awyddus creu polisïau i rymuso cymunedau. Bwriad i'w gwahodd i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mawrth a threfnu iddynt ymweld â chymunedau mewn cydweithrediad gyda aelodau'r Bwrdd. Nodwyd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | pwysigrwydd bod polisïau sy'n cael eu creu yn dod o'r gymuned a ffitio dyhead y cymunedau. Gofynnodd LLMH am wybodaeth ysgrifenedig o flaen llaw cyfarfod mis Mawrth i allu paratoi tuag at y disgwyliad o flaen llaw – Tîm Cefnogol BGC i drefnu yn dilyn cyfarfod pellach sydd wedi ei drefnu gyda Llywodraeth Cymru mis Ionawr.<br><br>Cyfryngau Cymdeithasol – Eglurodd GP bod ymdrech i ail-gydio yn y cyfrifon cymdeithasol y Bwrdd gan eu bod wedi bod yn segur ers peth amser. Nodwyd bod y Cynllun Llesiant drafft wedi cael sylw ar Twitter ddoe ac ei bod wedi 'tagio' aelodau o'r Bwrdd. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd rannu y negeseuon perthnasol. Nodwyd mai @LlesiantGaM yw'r cyfeirirad Twitter. Eglurwyd bod problemau mynediad gyda'r cyfrif Facebook, ond y gobaith yw bydd hwnnw yn weithredol erbyn y flwyddyn newydd, a bydd ymdrech i greu cyfrifon pellach ee Instagram ayyb maes o law.<br><br>Dathlu'r ddeddf/"Call to Action" – Eglurodd ST bod gwybodaeth wedi cyrraedd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda gwybodaeth am ddathlu'r ddeddf ac ystod o ddeunyddiau sydd ar gael i ddathlu cyflawniadau wrth i dymor y Comisiynydd cyntaf ddod i ben. Tîm Cefnogol BGC i rannu'r e-bost.<br>Holodd DS os oes modd llythyru'r Comisiynydd newydd gan estyn gwahoddiad iddynt i gyfarfod y Bwrdd yn ystod 2023. Tîm Cefnogol BGC i drefnu. | **Tîm Cefnogi BGC**<br><br>**Pawb**<br><br>**Tîm Cefnogi BGC**<br><br>**Tîm Cefnogi BGC** | Ionawr 2023<br><br>cgbm |
| **5** | **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2021-22**<br>Eglurodd ST bod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i Bwyllgorau Craffu Ynys Môn a Gwynedd cyn yr Haf, a bod mân addasiadau wedi digwydd ers hynny.<br>Nodwyd bod yr Adroddiad sydd wedi ei gylchredeg yn fersiwn gorffenedig, ac oni bai bod unrhyw sylwadau pellach o ran cywirdeb y cynnwys bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Bwrdd cyn y Nadolig.<br>Gofynnwyd am sylwadau erbyn diwedd yr wythnos. | **Pawb** | 16/12/22 |
| **6** | **Cynllun Llesiant 2023-2028 Drafft ag Amserlen**<br>Nodwyd bod y Cynllun Llesiant Drafft bellach allan i ymgynghori ers 12/12/22 am gyfnod o 12 wythnos. Eglurwyd bod y cynllun yn seiliedig ar weithdai a gynhaliwyd a mewnbwn aelodau'r Bwrdd. Nodwyd bod peth newidiadau wedi eu gwneud i'r fersiwn gyflwynwyd yng nghyfarfod arbennig y Bwrdd ar 24 Hydref, 2022. Rhannwyd copi o'r Amserlen ymgynghori gyda'r Bwrdd. Eglurwyd y bydd ymgynghori yn digwydd trwy holiadur ar lein, holiadur mewn llyfrgelloedd yn Môn a Gwynedd, a bydd ymgysylltu gyda ysgolion ayyb. Mae Cynllun Cyfathrebu wedi ei lunio.<br>Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd roi gwybod os bydd unrhyw grwpiau targed penodol hoffent i'r Tîm Cefnogol gysylltu â hwy.<br>Nodwyd bod yr amserlen yn dynn.<br>Dywedodd EW ei fod eisiau gweld y 3 categori aelodaeth wedi ei egluro yn well, gan ei fod yn annelwig i ba gategori mae'r Parc yn perthyn.<br>Dywedodd AJG ei bod yn bwysig bod y cynllun yn cysylltu y 5 ffordd o weithio gyda'r 7 amcan llesiant, a sut mae modd mesur llwyddiant y cynllun. | **Pawb**<br><br>**Tîm Cefnogi BGC** | cgbm |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diolchwyd i bawb am eu sylwadau a chyfraniadau hyd yma. | | |
| **7** | **Siarter Teithio Llesol Cymru**<br>Croesawyd Sarah Andrews i wneud cyflwyniad ar y siarter teithio llesol. Cyfeiriwyd at y papur oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw y cyfarfod.<br>Gofynnwyd os byddai modd i Aelodau'r Bwrdd ymrwymo i gyflawni un neu ddau o'r blaenoriaethau perthnasol fel amlinellir yn y siarter, gan adrodd yn ôl i'r Bwrdd pan yn amserol. Bydd hyn yn gyfle i fesur cynnydd mewn ffordd syml. Bydd hefyd yn gyfle i'n ysgogi fel sefydliadau i fynd i'r afael â phethau.<br>Nodwyd fod Aled Hughes wedi bod yn gweithio ar adeiladu'r Siarter yng Ngogledd Cymru a croesawyd Aled i'r sgwrs i ymateb unrhyw gwestiynau.<br>Nodwyd bod y siarter yn gyfle i edrych ar leihau defnydd o geir ar gyfer siwrne preifat byr, a bod modd clymu egwyddorion fewn i'r targed sero net carbon sydd wedi ei nodi yn y cynllun llesiant drafft.<br>Cafwyd sylwad gan DS fod y cynllun yn uchelgeisiol. Nodwyd pwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus i gymunedau cefn gwlad, ond bod y rhwydwaith a natur gwledig y sir yn golygu bod dibyniaeth ar gerbydau. Ymatebodd SA bod y siarter yma wedi ei deilwra i adnabod anghenion Gogledd Cymru, a bod staff a chyflogwyr wedi cael cyfle i roi mewnbwn.<br>Ychwanegodd EJ ei fod yn cydnabod buddsoddiadau gan Gwynedd a Môn yn ein lonydd glas a bod adnoddau gwych fel mynediad hygrych i gadeiriau olwyn a pramiau mewn sawl lleoliad, ond bod sawl linc gwan yn parhau. Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn yn gyfle i ychwanegu gwerth.<br>Ychwanegodd LLMH ei fod yn her i gyrraedd disgwyliadau Llywodraeth Cymru a bod y gallu i gyflawni yn ddibynnol ar nawdd gan y Llywodraeth. Nodwyd bod angen edrych ar y siarter o ran yr ochr teithio hamdden yn ogystal â teithio i'r gwaith.<br>Dywedwyd y byddai'r Tîm Cefnogol BGC yn codi'r mater gyda'r Llywodraeth yn y cyfarfod Polisi Cymunedau.<br>Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Iechyd gyda cynnydd yn achlysurol. Gofynnodd SA i bob sefydliad gadw cofnod o'r blaenoriaethau mae nhw yn ei ddewis ac yn adrodd ar sefyllfa Gogledd Cymru neu Gwynedd / Môn i'r Bwrdd.<br>Cytunwyd i'r Tîm Cefnogol BGC baratoi templed i Aelodau'r Bwrdd allu adrodd yn ôl. Ychwanegodd Aled Hughes bod templed ar gael y byddai yn ei rannu ar gyfer ei addasu.<br>Nodwyd bod LLMH yn gweld hwn yn gyfle i ddefnyddio y data i lobio / herio'r Llywodraeth i'r dyfodol. | **Tîm Cefnogi BGC**<br><br>**Pawb**<br><br>**Aled Hughes**<br>**Tîm Cefnogi BGC** | |
| **8** | **Diweddariadau yr is-grŵpiau** | | |
| | **Diweddariad ar waith yr is-grŵp Iaith Gymraeg – Gwenan Pritchard**<br>Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd y comisiwn gyda Iaith Cyf i edrych ar Prosiect Cyswllt Cyntaf a'r gwaith ymchwil oedd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda sefydliadau a'r gwasanaeth rheng flaen sy'n cael ei gynnig, a hefyd y gweithdai ymgynghori gynhaliwyd yn ystod yr Hydref gyda Rheolwyr i adnabod anghenion | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hyfforddiant a chefnogaeth sydd ei angen. Nodwyd rhai o'r prif ganfyddiadau megis pwysigrwydd bod y cynnig rhagweithiol yn cael ei gynnig ym mhob cyd-destun, arwyddion a'r amgylchedd clywedol.<br>Nodwyd mai'r camau nesaf fydd datblygu taflen ganllaw 'cyswllt cyntaf' ar gyfer staff rheng flaen ac i gynnal dau sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr ar lein i ddarparu arweiniad o ddefnyddio'r canllaw yn ystod mis Ionawr 2023.<br>Dywedodd DS ei fod yn bryderus bod y prosiect wedi ei dargedu ar lefel rheolwyr ac os yw rheolwyr o fewn Aelodaeth y Bwrdd wedi ymrwymo yn llawn i'r prosiect.<br>Nodwyd pwysigrwydd bod yr adroddiad ar ddiwedd y comisiwn yn dod a casgliadau clir. Nodwyd dymuniad i weld ymchwil pellach ar lwyddiant y prosiect.<br>Dywedodd BRW ei bod yn teimlo nad yw'r gwaith hwn hyd yma wedi canfod unrhyw beth newydd. Ychwanegwyd bod angen gosod gwaelodlin i ganfod llwyddiant.<br>Eglurodd AJG bod Aelodau'r Bwrdd wedi cael cyfle yn flaenorol i roi mewnbwn i'r prosiect. Nodwyd bod AJG wedi sefyll lawr fel Cadeirydd yr Is-grŵp Iaith gan ei fod bellach yn cadeirio'r Bwrdd, ond wedi parhau i gadeirio dros-dro. Rhoddwyd gwahoddiad i unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd sy'n awyddus ymuno gyda'r is grŵp iaith i wneud hynny.<br>Gofynnwyd oes lle i edrych ar aelodaeth yr is grŵp a'u gallu i weithredu yn y cynllun llesiant newydd. Be fyddai'r model orau i yrru'r cynllun yn ei flaen? Cytunwyd i'w ychwanegu fel eitem i'w drafod ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br>Ni chafwyd trafodaeth am y prosiect Cynllunio Gweithlu Dwyieithog – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. | **Tîm Cefnogi BGC**<br>**Tîm Cefnogi BGC** | |
| | **Diweddariad ar waith yr is-grŵp Newid Hinsawdd – Euros Jones**<br>Nodwyd bod amcan 3 "Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon" y cynllun llesiant drafft wedi ei ail eirio yn dilyn argymhellion CNC.<br>Nodwyd bydd grŵp o'r newydd yn cael ei lunio pan fydd y cynllun llesiant yn weithredol a bydd agen edrych ar aelodaeth.<br>Cynigiodd EJ ei hun fel Cadeirydd i'r is-grŵp newydd. | | |
| | **Diweddariad ar waith yr is-grŵp Iechyd a Gofal – Ffion Johnstone**<br>Nodwyd bod streic nyrsys a'r gwasanaeth ambiwlans ar y gweill.<br>Nodwyd bod y grŵp wedi ei sefyll i lawr i raddau oherwydd bod Grŵp Cynllunio Traws Glwstwr wedi ei greu gan y Llywodraeth. Nodwyd bod gweithdy wedi ei gynnal dros yr Haf.<br>Nodwyd bydd gweithdy pellach mis Ionawr. Nodwyd bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Uwch Swyddogion Gwynedd a Môn. Bydd y gweithdy yn gyfle i edrych ar flaenoriaethau ac allbynnau. Teimlad yw bydd y gwaith yma yn digwydd beth bynnag a heb fewnbwn is-grŵp y BGC. Nododd LLMH ei dymuniad i weld tystiolaeth o hyn yn digwydd, a rhoddwyd enghraifft gan FfJ. Gofynnwyd i FfJ ddarparu papur yn amlinellu llwyddiant yr enghraifft lle gwelwyd nifer y bobl yn dychwelyd adref o fewn terfynau amser yn haneru yn ddiweddar. | **FfJ** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9** | **Rhestr Rhwystrau a Datrysiadau – eitem sefydlog**<br>Eglurodd ST ei bod wedi llunio rhestr rhwystrau a datrysiadau i geisio mynd i'r afael â'r hyn sy'n wynebu gwaith y Bwrdd. Nododd DS ei fod yn gweld y rhestr yn arf defnyddiol iawn i helpu gyda gwaith dydd i ddydd y Bwrdd.<br>Nododd LLMH ei phryder i botensial y rhestr fynd yn rhy hir. | | |
| **10** | **Cyfleon a Heriau – eitem sefydlog**<br>Dim i'w godi. | | |
| **11** | **Dyddiadau arfaethedig Cyfarfodydd 2023**<br>• Dydd Iau, 16 Mawrth (newid i'r dyddiad gyhoeddwyd)<br>• Dydd Mercher, 14 Mehefin<br>• Dydd Mercher, 20 Medi<br>• Dydd Mercher, 13 Rhagfyr<br>Nodwyd y dyddiadau. | | |